Cyllid & Thollau EM

# Trethi a budd-daliadau

Gwybodaeth i'n cwsmeriaid lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.



Pride 1

# Cydnabyddiaethau

"Mae Stonewall yn falch o gyhoeddi canllaw Cyllid a Thollau EM ar drethi a budd-daliadau i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Bob wythnos rydym yn cael galwadau i'n Llinell Wybodaeth gan bobl mewn perthynas â phartner o'r un rhyw sy'n ansicr o sut y gall eu Partneriaeth Sifil effeithio ar bethau fel trethi etifeddiant a budd-daliadau. Felly rydym yn falch o allu eu cyfeirio bellach at y canllaw hwn. Mae Stonewall wedi gweithio'n ddi-baid dros hawliau cyfartal pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac rydym yn cydnabod mai cael yr hawliau o dan y gyfraith yw'r cam cyntaf yn unig mewn newid cymdeithas. Bydd y canllaw hwn yn helpu pobl sydd mewn perthynas â phartner o'r un rhyw i fanteisio'n llawn ar yr hawliau y maent wedi ymladd mor galed i'w cael".

**Ben Summerskill**
Prif Weithredwr, Stonewall

"Mae'r Ymddiriedolaeth Rhywedd yn croesawu arfer arloesol gan y llywodraeth sy'n cydymffurfio â'i dyletswydd o ran rhyw. Mae hwn yn gyhoeddiad defnyddiol iawn a ddylai sicrhau nad yw pobl drawsrywiol yn teimlo nad yw cyngor na gwybodaeth ddefnyddiol y gall CThEM ei roi ar gael iddynt. O ran treth a chyfraniadau yswiriant gwladol, yn aml y mae angen i bobl drawsrywiol ddatgelu eu statws trawsrywiol i CThEM. Mae'n bwysig iawn yn yr amgylchiadau hyn y gall pobl drawsrywiol fod yn agored am eu statws trawsrywiol a pheidio dod ar draws gwahaniaethu. Mae'r llyfryn amserol hwn yn mynd tipyn o ffordd i sefydlu'r ymddiriedaeth a'r hyder ymhlith y gymuned drawsrywiol sydd eu hangen ar bob adran o'r llywodraeth".

**Ben Thom**
Is-gadeirydd, Gender Trust

Stonewall

THE GENDER TRUST

Diolch i'r Adran Gwaith a Phensiynau am ei chydweithrediad wrth ddatblygu'r llyfryn hwn.

# Rhagair




Rwy'n hynod falch o gyflwyno hwn, ein cyhoeddiad cyntaf erioed i'n cwsmeriaid lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Yng Nghyllid a Thollau Ei Mawrhydi rydym yn gweithio'n galed i greu amgylchedd sy'n fwy derbyniol ac yn fwy croesawgar i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, fel rhan o'n hymrwymiad i amrywiaeth yn gyffredinol. Mae gennym gysylltiadau cadarnhaol iawn gyda Stonewall ac Ymddiriedolaeth Rhywedd a byddwn yn parhau i gadw materion o ran tueddfryd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd wrth galon ein hagenda amrywiaeth.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ymgynghorwyd â phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol mewn digwyddiadau Pride amrywiol. Nid yn unig rydym am ddeall beth a ddisgwylir gan ein cwsmeriaid, ond hefyd pa wybodaeth ddefnyddiol y gallwn ei darparu. Y llyfryn hwn yw'r canlyniad.

Rhan o weledigaeth Cyllid a Thollau EM yw darparu gwasanaeth cwsmeriaid sy'n gwella'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys deall anghenion unigol ein gwahanol cwsmeriaid. Rydym yn ymwybodol, er enghraifft, y gellid diwallu anghenion cwsmeriaid trawsrywiol yn well ac rydym yn edrych ar sut y gallwn gyflawni hyn. Rydym hefyd am roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar ein cwsmeriaid i gael pethau'n iawn.

Gobeithiaf y byddwch yn cael y llyfryn hwn yn ddiddorol ac yn berthnasol; ac y byddwch yn ei ddefnyddio wrth ddelio â Chyllid a Thollau EM yn y dyfodol.



**Mike Eland**
Cyfarwyddwr Cyffredinol CThEM a
Hyrwyddwr am Amrywiaeth Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Treth Incwm | 6 |
| Cyfraniadau Yswiriant Gwladol | 7 |
| Treth Etifeddiant | 8 |
| Treth ar Enillion Cyfalaf | 10 |
| Pensiynau'r Wladwriaeth | 11 |
| Credydau Treth | 13 |
| Sut rydym yn delio â'ch cofnodion | 14 |
| Ein gwasanaeth i chi | 15 |
| Amrywiaeth yn CThEM | 16 |
| Gweithio gyda ni | 18 |

# Treth Incwm

**A wyddech chi...**

- Ers 5 Rhagfyr 2005 pan ddaeth y Ddeddf Partneriaeth Sifil i rym, mae gan barau o'r un rhyw sydd mewn partneriaethau sifil yr un statws cyfreithiol â pharau priod at ddibenion treth.
- Gall y partner sifil sydd â'r incwm mwyaf wneud cais am Lwfans Pâr Priod lle roedd un o'r pâr wedi'i eni cyn 6 Ebrill 1935, a'u bod yn byw gyda'i gilydd.
- Gall partner sifil sydd â hawl i Lwfans Person Dall ond nad yw'n defnyddio'r lwfans i gyd, drosglwyddo unrhyw swm sy'n weddill i bartner (a gallai hynny olygu'r cyfan ohono), cyn belled â'u bod yn byw gyda'i gilydd.
- Nid yw bod yn drawsrywiol yn effeithio ar eich atebolrwydd i Dreth Incwm mewn unrhyw ffordd, er y gall eich sefyllfa o ran treth newid os daw eich perthynas i ben gan eich bod wedi newid rhyw.

Am ragor o wybodaeth am Lwfans Pâr Priod a Lwfans Person Dall, ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewiswch **Income Tax**

neu gallwch ddefnyddio lleolydd swyddfa CThEM ar-lein neu eich llyfr ffôn lleol i ddod o hyd i'r rhif ffôn perthnasol

neu ffoniwch Linell Blaenoriaeth Lwfans Person Dall CThEM ar **0845 366 7887.**

# Cyfraniadau Yswiriant Gwladol

**A wyddech chi...**

- Rydych yn rhoi'r gorau i dalu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- Mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer menywod yn 60 oed ar hyn o bryd. Bydd yr oedran hwn yn codi'n raddol o 60 i 65 oed o 6 Ebrill 2010 i 2020, gan ei wneud yn gyfartal ag oedran dynion. Am ragor o wybodaeth am bensiynau gweler tudalen 11.
- Mae oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer dynion yn 65 oed ar hyn o bryd.
- Bydd pobl sy'n newid rhyw ac sy'n cael Tystysgrif Cydnabod Rhyw lawn yn talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar sail y rhyw y byddant yn newid iddo.
- Bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer unrhyw un a anwyd ar ôl 5 Ebrill 1955 yn 65 oed, felly ni fydd newid rhyw yn effeithio ar y dyddiad y daw atebolrwydd unigolyn i gyfrannu i ben.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewiswch **National Insurance Contributions**

neu gallwch ein ffonio ar **0845 302 1489**.

# Treth Etifeddiant

**A wyddech chi...**

- Os bydd partner mewn pâr o'r un rhyw sydd mewn partneriaeth sifil yn marw, byddai unrhyw beth y byddant yn ei adael i'r partner sy'n goroesi'n rhydd o Dreth Etifeddiant.
- Os bydd partner pâr o'r un rhyw nad yw mewn partneriaeth sifil yn marw, bydd yn rhaid talu Treth Etifeddiant ar yr ystad os yw ei gwerth yn fwy na £325,000 o 6 Ebrill 2009.
- Os bydd priod neu bartner mewn partneriaeth sifil yn marw, ac nad yw'n defnyddio swm 'di-dreth' y Dreth Etifeddiant, sef £325,000 ar hyn o bryd, yna gellir trosglwyddo hwn i'r priod neu'r partner sy'n goroesi. Ar farwolaeth yr olaf, yna gall ei ystad/hystad fod yn rhydd o Dreth Etifeddiant hyd at y swm o £650,000.
- Ni fydd Treth Etifeddiant yn effeithio'n andwyol ar barau sy'n dirymu eu priodas ac yna'n mynd i mewn i bartneriaeth sifil yn syth, na pharau sy'n diddymu eu partneriaeth sifil, ac yn priodi'n syth, fel y gall un o'r partneriaid gael cydnabyddiaeth rhyw. Fodd bynnag, os oes gennych bryderon am yr agweddau hyn, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Treth Etifeddiant a ddangosir isod.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewiswch **Inheritance Tax**

neu ffoniwch ein Llinell Gymorth Treth Etifeddiant ar **0845 302 1489**.



# Treth ar Enillion Cyfalaf

**A wyddech chi…**

- Os ydych mewn partneriaeth sifil, cyn belled â'ch bod yn byw gyda'ch gilydd, nid oes rhaid i chi dalu Treth ar Enillion Cyfalaf ar y broses o drosglwyddo asedau i'ch partner.
- Efallai y bydd gennych chi a'ch partner hawl i ryddhad treth (a elwir yn Ryddhad Preswylfa Breifat) ar unrhyw enillion a wnewch pan fyddwch yn gwerthu neu'n gwaredu fel arall eich unig breswylfa neu'ch prif breswylfa. Fodd bynnag, gellir gwneud cais am ryddhad ar un breswylfa'n unig ar unrhyw adeg tra y byddwch yn byw gyda'ch gilydd. O fewn dwy flynedd o'r bartneriaeth sifil, bydd angen i chi enwebu ar y cyd pa eiddo sydd am gael ei drin fel eich unig breswylfa neu'ch prif breswylfa. Yna bydd unrhyw eiddo arall yn agored i Dreth ar Enillion Cyfalaf, er bod mathau eraill o ryddhad a allai fod ar gael i leihau'r enillion trethadwy.
- Ni fydd bod yn drawsrywiol, ynddo'i hun, yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch sefyllfa mewn perthynâs enillion cyfalaf.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac o dan quick links dewiswch **Capital Gains Tax**

Yn arbennig, gellir dod o hyd i wybodaeth fanwl ar-lein yn ein taflen gymorth ar Dreth ar Enillion Cyfalaf '**HS281 Husband and wife, civil partners, divorce, dissolution and separation**' a geir yn **http://www.hmrc.gov.uk/helpsheets/hs281.pdf**

# Pensiynau'r Wladwriaeth

**A wyddech chi...**

- Os nad ydych wedi talu, neu wedi cael eich credydu â digon o Gyfraniadau Yswiriant Gwladol i gael Pensiwn sylfaenol llawn y Wladwriaeth eich hun efallai y gallwch wella'r hyn y gallwch ei gael drwy ddefnyddio cofnod Yswiriant Gwladol eich partner sifil. Os bydd eich partner sifil yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2010 neu wedi hynny gallwch wneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eu cofnod Yswiriant Gwladol cyn belled â bod y ddau/ddwy ohonoch yn hŷn nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gallwch wneud hyn hyd yn oed os nad ydynt wedi gwneud cais am Bensiwn y Wladwriaeth eto. Gan ddibynnu ar swm y cyfraniadau y mae eich partner sifil wedi'u gwneud, gallech gael Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth o hyd at 60% o Bensiwn sylfaenol llawn y Wladwriaeth.
- Os bydd eich partner sifil yn marw, efallai y gallwch etifeddu rhan o'u Pensiwn hwy.
- Gall y Gwasanaeth Pensiwn roi rhagolwg o Bensiwn y Wladwriaeth a gewch - i gael un cysylltwch â hwy ar **0845 300 0168** neu gwnewch gais am un ar-lein yn: **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk/forecast**
- Os oes gennych Dystysgrif Cydnabod Rhyw, byddwch fel yn cael Pensiwn y Wladwriaeth ar yr oedran sy'n briodol i'r rhyw rydych yn newid iddo.
- Erbyn 2020, bydd oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer dynion a merched yn 65 oed.

Am ragor o wybodaeth am bensiynau, ewch i **www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk**

neu gallwch eu ffonio ar **0845 7 31 32 33** a gofyn am daflen ar **Bensiynau'r Wladwriaeth**

neu ffoniwch hwy ar y Llinell Gymorth Pensiynau **0845 60 60 265**.



# Credydau Treth

**A wyddech chi…**

- Os ydych yn 25 oed neu'n hŷn, ar incwm isel ac yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos, neu, os ydych yn anabl, yn 16 oed neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, efallai y gallwch gael Credydau Treth Gwaith. Ar gyfer cwsmeriaid sy'n gyfrifol am blentyn, efallai y bydd gennych hawl i Gredydau Treth Gwaith os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn, ac rydych chi, a/neu'ch partner, yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.
- Telir Credyd Treth Plant i chi os ydych chi'n gyfrifol am o leiaf un plentyn, p'un a ydych yn gweithio ai peidio. Os oes gennych blentyn ag anabledd, neu os oes gennych fabi sydd o dan un oed, efallai y bydd gennych hawl i fwy o gredyd. Os yw eich plentyn rhwng 16 a 20 oed a dal mewn addysg llawn amser, o dan lefel brifysgol, neu ar gwrs hyfforddi cymeradwy, byddwch yn dal i gael Credyd Treth Plant.
- Os ydych chi'n berson sengl sy'n hawlio credydau treth ac rydych yn ffurfio partneriaeth sifil neu'n dechrau byw gyda phartner o'r un rhyw, rhaid i chi roi gwybod i ni am y newid mewn amgylchiadau. Bydd angen i chi wneud cais ar y cyd gan ystyried incwm y ddau bartner.
- Ni fydd newid rhyw yn effeithio ar eich credydau treth a byddwn yn delio gyda chi fel y rhyw rydych wedi newid iddo heb ystyried cydnabyddiaeth rhyw.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewiswch **Tax Credits**

neu gallwch ein ffonio ar ein Llinell Gymorth Credydau Treth ar **0845 302 1489.**

# Sut rydym yn delio â'ch cofnodion

Mae gwybodaeth am eich tueddfryd rhywiol ac unrhyw newid mewn rhyw yn wybodaeth sensitif o dan y Ddeddf Diogelu Data. Felly, rydym yn cymryd gofal arbennig o ddata o'r fath. Yn anaml y bydd tueddfryd rhywiol yn ffactor heblaw wrth wneud ceisiadau fel pâr o'r un rhyw.

Dengys ein cofnodion rhyw pob unigolyn ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol, mae angen i bobl sy'n newid eu rhyw wybod y canlynol:

- Gallwch roi gwybod am unrhyw newid enw a theitl at ddibenion treth dros y ffôn.
- Ni allwch newid eich rhyw ar eich cofnodion treth na'ch cofnodion Yswiriant Gwladol pan fyddwch yn newid eich enw neu'ch teitl i ddechrau. Dim ond ar ôl i chi gael Tystysgrif Cydnabod Rhyw gan y Panel Cydnabod Rhyw y byddwn yn newid y cofnodion rhyw. Gallwch ofyn i'r panel roi gwybod i ni'n uniongyrchol o'ch cydnabyddiaeth.
- Heb ystyried p'un a oes gennych Dystysgrif Cydnabod Rhyw ai peidio, byddwn bob amser yn defnyddio eich enw a'ch teitl newydd ym mhob gohebiaeth gyda chi ac amdanoch chi.

I ddod o hyd i'ch Swyddfa Dreth CThEM leol ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac edrychwch o dan '**Contact us**'.

Am ragor o wybodaeth am newid rhyw ewch i'r wefan Cydnabod Rhyw **www.grp.gov.uk**.

# Ein gwasanaeth i chi

**Sut rydym yn eich trin**

Mae CThEM yn cydnabod amrywiaeth eang y cymunedau a wasanaethir gennym a byddwn bob amser yn eich trin yn deg ac yn briodol. Byddwn bob amser yn parchu eich tueddfryd rhywiol neu'ch hunaniaeth rhyw wrth ymwneud â chi ac yn ceisio cynnal eich urddas a'ch preifatrwydd. Am hynny, ac yn benodol i bobl sydd wedi newid rhyw, pan fyddwch yn rhoi gwybod i ni am eich newid mewn enw a theitl byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hyn pryd bynnag y byddwn yn cysylltu a chi.

**Os oes gennych gŵyn**

Os ydych yn anfodlon ar y ffordd rydym wedi'ch trin, rhowch wybod i ni.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac o dan quick links dewiswch **Complaints**.



# Amrywiaeth yn CThEM

Rydym yn falch iawn o'n record ar amrywiaeth a chydraddoldeb yn CThEM. Rydym am fod yn gwbl gynhwysol ac mae gennym ystod o rwydweithiau amrywiaeth - sy'n agored i bob aelod o staff, gan gwmpasu Hil, Crefydd neu Gred, Anabledd, Oedran, Gofalwyr, Rhyw, Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a, chan ein bod yn cydnabod bod hunaniaeth rhyw yn wahanol i dueddfryd rhywiol, ni yw unig adran y llywodraeth sy'n rhoi llais i bobl drawsrywiol yn eu rhwydwaith eu hunain.

Mae Mike Eland, Hyrwyddwr y Bwrdd ac aelod o'n Pwyllgor Gweithredol, yn sicrhau bod materion tueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw yn parhau i fod wrth galon agenda amrywiaeth CThEM. Mae ein rhwydweithiau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth i unrhyw un yn y sefydliad ar faterion sy'n ymwneud â phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae CThEM yn ymrwymedig i herio pob math o homoffobia a thrawsffobia a lleihau'r unigrwydd y gellir ei brofi gan rai pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Gan weithio gyda'r Bwrdd ac undebau llafur, datblygodd y rhwydweithiau ddatganiad ar y cyd o ymrwymiad i ddileu homoffobia a thrawsffobia yn y sefydliad ac fe'i lansiwyd mewn cynhadledd gweithle diweddar ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Mae'r rhwydweithiau wedi yn cyfrannu'n helaeth at Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ein polisïau a'n gweithdrefnau ac rydym wedi helpu i ddatblygu polisi rheoli absenoldeb sy'n torri tir newydd ar gyfer pobl sy'n mynd drwy'r broses o newid rhyw.

Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth, mae ein haelodau wedi cyhoeddi eu straeon personol ar ein Mewnrwyd a'n cylchgrawn mewnol, ac mae ein rhaglen 'mentora o chwith' unigryw yn golygu y caiff uwch reolwyr eu mentora gan staff sy'n agored am eu bônt yn hoyw.

Am ragor o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â **co-ordinator.lgbnetwork@hmrc.gsi.gov.uk** neu **co-ordinator.transgendernetwork@hmrc.gsi.gov.uk**



# Gweithio gyda ni

Mae ein gwaith yn cael effaith ar fywydau pob oedolyn yn y DU, ac rydym am i'n gweithlu adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau a wasanaethir gennym.


Dyna pam rydym yn ceisio recriwtio o'r gronfa dalent ehangaf posibl, a pham y daw ein staff o bob math o gefndiroedd gwahanol a bod ganddynt bob math o brofiadau a sgiliau.

Mae llawer wedi'u lleoli yn ein canolfannau gweinyddol a'n canolfannau cyswllt. Mae'n cyfleoedd yn cynnwys Swyddog Gweinyddol ac Ymgynghorydd Gwasanaeth Cwsmeriaid, lle mae'r cyflog cychwynnol yn £15,720.

Rydym hefyd yn cyflogi amrywiaeth eang o arbenigwyr, fel ystadegwyr, cyfrifwyr a chyfreithwyr, ac yn cynnal rhaglen datblygu graddedigion, gan baratoi pobl ar gyfer rolau uwch (lle gall cyflogau godi o £26,010 i £47,735 mewn pedair blynedd yn unig).

Mae gennym amryw o gyfleoedd arbennig. Ond ein diwylliant mewn gwirionedd sy'n ein gosod ar wahân. Mae amrywiaeth, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a gonestrwydd a pharch yn rhai o'n gwerthoedd allweddol. Yn 2008, daethom yn drydydd ym Mynegai Cydraddoldeb Trawsrywiol a: gender, sy'n adlewyrchu'r gwaith rydym wedi'i wneud i ddod yn sefydliad sy'n fwy cyfeillgar i bobl drawsrywiol. Rydym hefyd yn noddwyr balch o'r Ymddiriedolaeth Rhywedd, a daethom yn safle 50 yn rhestr Stonewall o'r 100 Cyflogwr Gorau.

I gael gwybodaeth am ein swyddi gwag presennol ewch i **www.hmrc.gov.uk** ac o dan quick links dewisiwch **Jobs**.


Outside
Reps.
½ DAY
SALES

# Gweithio gyda'n gilydd i gael gweithle gwell a gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid

**Rhowch wybod i ni beth yw eich barn...**

Rydym yn croesawu eich adborth ar y cyhoeddiad hwn, gan gynnwys unrhyw syniadau sydd gennych am sut y gallwn wella ein gwasanaeth i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Gellir anfon adborth mewn neges e-bost at naill ai
**co-ordinator.lgbnetwork@hmrc.gsi.gov.uk** neu
**co-ordinator.transgendernetwork@hmrc.gsi.gov.uk**

Gellir cael y wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn mewn fformatau print bras, sain a Braille drwy anfon neges e-bost at **co-ordinator.lgbnetwork@hmrc.gsi.gov.uk**

FSC
logo here

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sydd wedi'i wneud o ffibrau sydd wedi'u hailgylchu'n gyfan (100%) a gafwyd i gyd o wastraff ôl-ddefnyddwyr gan ddefnyddio inc a wneir o lysiau.

**Cyhoeddwyd gan**
Cyllid a Thollau EM
Mehefin 2009 (h) Hawlfraint y Goron 2009

L21043